




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sut i rannu a defnyddio
negeseuon 'Siarad gyda fi'
gyda'r teuluoedd rydych chi'n eu cefnogi**



Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â SBW Advertising, gomisiynu'r Behavioural Insights Team (BIT) i nodi ffyrdd o rymuso rhieni ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i ymgorffori sgiliau iaith a chyfathrebu ym mywyd bob dydd.

Nod arbrawf ar-lein BIT oedd rhoi gwybod pa fathau o negeseuon oedd orau am gynyddu bwriad rhieni i siarad, canu, a chwarae gyda babanod a phlant ifanc.

Mae'r argymhellion sy'n seiliedig ar yr ymchwil hon nawr yn cael eu defnyddio'n gyson yn yr ymgyrch 'Siarad â fi'.

Bydd y ddogfen hon yn eich helpu i:

- 1 Cyfathrebu adnoddau 'Siarad gyda fi' yn effeithiol a rhannu negeseuon effeithiol ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu**
- 2 Cymhwyso canfyddiadau BIT ar gyfer eich cynnwys eich hun, i wneud hyn hyd yn oed yn fwy hygyrch ac atyniadol**



Cyflwyniad

Gwnaeth BIT brofi tair set o ddewisiadau o ran negeseuon gyda sampl o 1,705 o rieni Cymraeg a Saesneg, rhwng 17 - 26 Ionawr 2022.

Roedd y negeseuon hyn yn canolbwyntio ar gefnogi datblygiad lleferydd ac iaith plant drwy siarad gyda'u plant, canu gyda'u plant, a chwilio am gymorth proffesiynol ar gyfer eu plant.



Y tri math o negeseuon a brofwyd oedd:

1

Sylfaenol

(h.y. datgan ffeithiau fel "Canwch hwiangerddi gyda'ch gilydd")

2

Penodol

(h.y. rhoi cyngor penodol ar yr hyn yr ydym eisiau i rieni a gofalwyr ei wneud, fel "canwch *Seren Fechan yn y Nen heno*")

3

Gwyddonol

(h.y. egluro'r effaith y gall canu ei gael ar ddatblygiad ymennydd plentyn. Er enghraifft, "mae ailadrodd ac odli yn helpu plant i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol synau")

Argymhellion ymchwil BIT

Yna, cyflwynodd BIT y tri argymhelliad canlynol i lywio negeseuon 'Siarad gyda fi'. Bydd y ddogfen hon yn eich helpu chi i ddeall yn well a rhoi'r cyntaf o'r argymhellion hyn ar waith.

1

Ystyriwch ddefnyddio'r awgrymiadau "Gwyddonol" (e.e. sut mae canu yn helpu) ac awgrymiadau "Penodol" (e.e. syniadau o ba ganeuon i'w canu).

Ystyriwch greu dwy fersiwn o negeseuon "Gwyddonol" a "Penodol" i dargedu plant o dan 3 oed a thros 3 oed ar wahân.

Pan fo'n bosibl, rhowch ddolenni at adnoddau eraill (e.e. rhestr o ganeuon/rhigymau neu syniadau ychwanegol ar bethau i siarad amdanynt) a thystiolaeth arall, gan fod rhieni wedi gofyn am y ddau.

Sicrhewch fod logos (h.y. Llywodraeth Cymru neu Dechrau'n Deg) i'w gweld yn glir ar ohebiaeth i roi hygredd.

2

Rhowch fwy o sylw i'r manteision hirdymor o wneud ffrindiau a gwneud yn dda yn yr ysgol nag ar ganlyniadau negyddol neu sut i deimlo'n llai rhwystredig.

Osgowch (neu byddwch yn ofalus iawn gyda) negeseuon ynghylch canlyniadau negyddol, o ystyried cymaint o euogrwydd y mae hyn yn ei achosi.

Byddwch yn ofalus am negeseuon yn canolbwyntio ar 'wneud ffrindiau' yn unig, gan y gwnaeth hyn ddieithrio un rhiant i blentyn ag anghenion addysgol arbennig.

3

Ymgorfforwch negeseuon am gerrig milltir a phryd i chwilio am gymorth proffesiynol.

Ychwanegwch fwy o gyd-destun a sicrwydd at y negeseuon sy'n cael eu profi (e.e. "mae plant yn amrywio o ran pryd y maen nhw'n datblygu").

Ychwanegwch ddolen at adnoddau eraill pan fo'n bosibl, i gyfeirio at wybodaeth arall.

Sut mae 'Siarad gyda fi' wedi defnyddio'r canfyddiadau hyn

Mae cynnwys 'Siarad gyda fi' yn seiliedig ar ddeunyddiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu arbenigol, sydd wedyn yn cael eu trosi'n fformatau hygyrch a deniadol. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau llyfrynnau a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u hanelu at deuluoedd â phlant 0-5 oed.

Gan ddilyn argymhelliad cyntaf BIT, mae negeseuon "penodol" a "gwyddonol" i'w gweld yn yr holl gynnwys hwn, i annog teuluoedd ymhellach i siarad a chwarae gyda'u plant.

Mae negeseuon "penodol" yn hyrwyddo cyngor a syniadau am weithgareddau, ac mae'r negeseuon "gwyddonol" yn esbonio effaith y gweithgareddau hyn ar ddatblygiad ymennydd plant.

Mae'r [Pecyn Rhieni a Gofalwyr](#), er enghraifft, yn cynnwys syniadau am weithgareddau "penodol" ochr yn ochr â gwybodaeth am fanteision "gwyddonol" y gweithgareddau hyn.


Er enghraifft:

Gweithgaredd penodol:

Rho gynnig ar ofyn cwestiynau syml amser bwyd. Gallet ti ddal carton o sudd a llaeth, ac annog dy blentyn bach i bwyntio: "sudd neu laeth"?

Esboniad gwyddonol:

Cofia roi digon o amser iddo ateb. Drwy ddefnyddio mwy o sylwadau na chwestiynau, rwyd ti'n lleihau unrhyw bwysau y gall dy blentyn bach ei deimlo i siarad.



Sut mae 'Siarad gyda fi' yn defnyddio'r canfyddiadau hyn

Yn dilyn argymhellion BIT, mae cynnwys cyfryngau cymdeithasol [‘Siarad gyda fi’](#) yn osgoi gwybodaeth a negeseuon rhy gymhleth a allai achosi teimladau o euogrwydd (e.e. gwybodaeth am ganlyniadau Lleferydd, iaith a Chyfathrebu negyddol neu syniadau ar gyfer gweithgareddau drud).

Yn hytrach, mae ‘Siarad gyda fi’ yn pwysleisio y gall gweithgareddau syml, am ddim (cyngor "penodol") fod â manteision cadarnhaol, hirdymor ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu plant (effeithiau "gwyddonol").

Nod y sianel hefyd yw tawelu meddyliau teuluoedd bod gweithgareddau y mae’n debygol eu bod yn eu gwneud eisoes gyda’u plant o fudd ar gyfer datblygiad Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (e.e. "rhannu rhigwm ar unrhyw bryd"). Mae hyn yn codi hyder rhieni yn eu galluoedd a’r adnoddau sydd eisoes ar gael iddyn nhw.

O’i gyfuno â delweddau deniadol, mae negeseuon wedi’u llywio gan BIT yn aml yn cael derbyniad da gan gynulleidfa’r sianel (gweler y postiad enghreifftiol ar y dde).

Mae syniad ar gyfer gweithgaredd "penodol" yn ymddangos yn y pennawd.

Mae dealltwriaeth "gwyddonol" i’w gweld yn y darlun.

Cana rigwm i mi ar unrhyw adeg! 🎵
Rho gynnig ar ganu 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' gyda dy un bach cyn amser gwely.
Gall canu gyda nhw ddatblygu eu sgiliau gwrando! Beth am ychwanegu rhai ystumiau i'w wneud yn fwy o hwyl?... [See more](#)

[See translation](#)



Hugh Bert Harris, Leticia Korin-Moore and 79 others 2 comments 15 shares

A man with glasses and a beard is smiling while reading a book to a young child with curly hair. They are both looking down at the book. The scene is dimly lit, suggesting a bedtime story. Above the child's head, there are several glowing, neon-like illustrations: a musical note, a plant with leaves, a fox, and some abstract squiggly lines. The text is overlaid on the bottom left of the image.

**Sut i rannu a chymhwyso
negeseuon 'Siarad gyda fi'**

Sut i ddefnyddio adnoddau 'Siarad gyda fi'


Mae tudalen we 'Siarad gyda fi' yn llawn awgrymiadau ac adnoddau i helpu teuluoedd i ddeall pwysigrwydd eu rôl yn cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu eu plant.

Gallwch ddod o hyd i holl adnoddau 'Siarad gyda fi' yn:

llyw.cymru/siarad-gyda-fi-canllawiau-ymarferwyr



Mae'r adnoddau'n cynnwys ein llyfryn **'10 tip gwyh'**, sy'n cynnwys negeseuon "gwyddonol" a "penodol".



Gallwch ddod o hyd i bob un o'r deg tip 'Siarad gyda fi' allweddol yn y llyfryn hwn.

Mae'r negeseuon "gwyddonol" (esboniadau y tu ôl i'r tips) yn ymddangos yn y testun porffor.

Mae negeseuon "penodol" (gweithgareddau enghreifftiol) yn ymddangos yn y testun gwyrdd.

Enghreifftiau eraill o negeseuon wedi'i llywio gan BIT

Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau eraill o negeseuon “**gwyddonol**” a “**penodol**” wedi’u cyfuno isod, wedi’u cysylltu â phob un o ddeg tip ‘Siarad gyda fi’ allweddol. Gall y fformat negeseuon hwn lywio’ch cynnwys eich hun ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu.

Tip 1: Dechreuwa siarad gyda fi cyn i fi gael fy ngeni

Neges wyddonol: Mae dy fabi’n gallu clywed synau o 24 wythnos o feichiogrwydd! Ar ôl iddo gael ei eni, mae’n adnabod synau roedd yn eu clywed yn y groth a rhythm dy lais.

Neges benodol: Mae dy blentyn bach wrth ei fodd pan wyt ti’n siarad ac yn canu iddo cyn iddo gael ei eni. Rho gynnig ar ganu hwiangerdd fel *Heno Heno* i dy fwmp pryd bynnag sy’n teimlo’n gyfforddus i ti - ti sy’n gwybod orau!

Tip 2: Galla’i ddysgu ein hiaith a’n diwylliant gen ti

Neges wyddonol: Mae ymennydd plant yn anhygoel! Gallan nhw ddysgu nifer o ieithoedd o’u genedigaeth, gan eu helpu i ddeall y ffyrdd y mae gwahanol synau’n cael eu ffurfio.

Neges benodol: Siarada gyda dy blentyn yn yr iaith yr wyt ti’n ei gwybod orau! Ceisia rannu llyfr o dy blentyndod dy hun i rannu dy ddiwylliant a dy dreftadaeth.

Enghreifftiau eraill o negeseuon wedi'i llywio gan BIT

Tip 3: Ein lle gorau yw wyneb yn wyneb

Neges wyddonol: Pan fyddi di'n eistedd wyneb yn wyneb, galli di ddeall ymadroddion ac ystumiau dy blentyn bach yn well. Mae hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhyngoch ac yn ei helpu i deimlo'n ddiogel!

Neges benodol: Cer wyneb yn wyneb â dy blentyn bach i'w helpu i ddysgu am ymadroddion ac ystumiau. Er enghraifft, gallet ti fynd ar lefel dy blentyn bach yn ystod amseroedd bwyd. Defnyddia ystumiau ar gyfer bwyta ac yfed i'w helpu i 'baru' geiriau a gweithredoedd hefyd!

Tip 4: Cana gân i fi unrhyw bryd

Neges wyddonol: Oeddet ti'n gwybod bod canu yn helpu babis i ddysgu strwythur iaith? Mae rhythm a thraw yn helpu plant i gofio geiriau hefyd!

Neges benodol: Mae dy blentyn bach yn hoff iawn o rannu caneuon a rhigymau cyfarwydd gyda ti. Beth am ganu 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' yn y bath heno, ac ychwanegu rhai ystumiau hefyd?

Enghreifftiau eraill o negeseuon wedi'i llywio gan BIT

Tip 5: Beth am siarad a chwarae bob dydd

Neges wyddonol: Mae siarad a chwarae gyda dy blentyn bach yn ei helpu i ddysgu geiriau ac yn datblygu ei sgiliau gwranddo a chymryd tro hefyd!

Neges benodol: Beth am gael picnic tedi bêrs gyda dy blentyn bach? Am bob cwestiwn rwyf ti'n ei ofyn, ceisia wneud pedwar sylw. Er enghraifft: Ydy tedi eisiau llaeth neu ddŵr yn gyntaf? 1. Mae hwnna'n edrych yn flasus! 2. Mae Tedi wedi cael digon o laeth nawr. 3. Dwi'n mynd i arllwys ychydig o ddŵr yn y cwpan. 4. Mae e' wedi gorffen!

Tip 6: Beth am edrych ar lyfrau gyda'n gilydd

Neges wyddonol: Mae rhannu llyfrau yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau siarad dy blentyn bach. Ceisia siarad am yr hyn yr wyt ti'n ei weld i'w helpu i ddysgu safbwyntiau gwahanol a datblygu ei ddychymyg.

Neges benodol: Mae amser stori yn gyfle gwych i rannu llyfrau gyda dy blentyn bach! Gad iddo arwain a chwarae gyda'r llyfr fel y mae'n dymuno – gall hyn gynnwys ei droi ben i waered neu hyd yn ei roi ar ei ben! Mae hyn i gyd yn rhan o'r daith dysgu iaith.

Enghreifftiau eraill o negeseuon wedi'i llywio gan BIT

Tip 7: Siarada gyda fi am beth gallwn ni weld

Neges wyddonol: Mae ailadrodd geiriau a gweithredoedd yn datblygu cof dy blentyn bach ac yn ei helpu i wneud cysylltiadau newydd!

Neges benodol: Cymer amser i enwi ffrwythau neu lysiau yn y siopau gyda'ch gilydd. Os yw dy blentyn bach yn dweud gair yn anghywir, fel 'nana' pan mae'n golygu 'banana', gelli di ymateb, "le, banana!"

Tip 8: Beth am droi 'amser sgrîn' yn 'amser ti a fi'!

Neges wyddonol: Mae canolbwyntio ar rywbeth gyda'ch gilydd yn datblygu gallu dy blentyn bach i ganolbwyntio ac yn helpu i gryfhau'r cysylltiad rhyngoch chi.

Neges benodol: Os wyt ti'n gwyllo *Hey Duggee* gyda dy blentyn bach, siarada gydag e' am yr hyn y gallwch chi ei weld! Disgrifiwch beth sydd ar y sgrin a cheisia sylwi ar yr hyn y mae dy blentyn bach yn ymddiddori ynddo. Bydd hyn yn helpu i gyflwyno mwy o eiriau i'w eirfa.

Enghreifftiau eraill o negeseuon wedi'i llywio gan BIT

Tip 9: Ychwanega air at beth rwyf ti wedi fy nghlywed i'n ei ddweud

Neges wyddonol: Gall ychwanegu geiriau at beth rwyf ti wedi clywed dy un bach yn ei ddweud ei helpu i ddatblygu ei eirfa a gwneud cysylltiadau newydd.

Neges benodol: I helpu dy blentyn bach i ddysgu geiriau newydd, gad iddo arwain a siarada am yr hyn y gelli di ei weld a'i glywed. Yna, ceisia ychwanegu geiriau newydd at beth rwyf ti'n ei glywed yn ei ddweud. Er enghraifft, os yw'n dweud 'car', gallet ti ddweud 'car cyflym'!

Tip 10: Dwi wrth fy modd yn siarad gyda phawb

Neges wyddonol: Gall siarad â ffrindiau a theulu helpu dy blentyn bach i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol a rhoi hwb i'w hyder.

Neges benodol: Os yw dy blentyn bach yn mwynhau mynd am bicnic gyda'ch teulu a'ch ffrindiau, beth am siarad am hoff fwydydd pawb? Mae dy blentyn bach yn dy wyllo ac yn gwrando arnat ti drwy'r amser, felly byddi di'n ei helpu i ddysgu geiriau newydd.

Diolch!

Gallwch ddod o hyd i holl adnoddau 'Siarad gyda fi' yn www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi-canllawiau-ymarferwyr.

Byddem ni wrth ein bodd petaech yn rhannu'r adnoddau hyn gyda'r teuluoedd yr ydych yn gweithio gyda nhw.

Am ragor o gyngor a syniadau i'w rhannu gyda theuluoedd, dilynwch ni ar Facebook: [@Siarad gyda fi – Talk with me](#).

